

Cyflwyno cais am drwyddedau i wneud gwaith arolygu safonol ar ystumod

Mewn nifer o sefyllfaoedd, rhaid cael trwydded er mwyn gwneud gwaith arolygu safonol ar rywogaethau dan warchodaeth.

Cyn y gall Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) roi trwydded ichi, rhaid inni gael yr holl wybodaeth berthnasol. Er mwyn sicrhau y gallwn ddelio â'ch cais yn effeithlon, a wnewch chi ddarllen yr holl nodiadau ar y ffurflen gais ac ateb yr holl gwestiynau'n llawn. Dim ond ar ôl bodloni pob un o'r meini prawf perthnasol y bydd modd rhoi trwydded ichi. Rhaid i'r ymgeiswyr ddangos bod ganddynt brofiad digonol o fynd i'r afael â'r gweithgareddau a nodir yn y cais.

Os na fydd CNC yn derbyn yr holl wybodaeth, fe allai hyn arwain at oedi cyn prosesu'r cais. Nod CNC yw prosesu'r ceisiadau o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr holl wybodaeth.

Dyma wybodaeth gryno'n sôn am y profiad angenrheidiol y bydd yr ymgeiswyr ei angen i wneud gweithgareddau arbennig:

- I aflonyddu ar safle clwydo neu safle gaeafgyssgu ystumod, rhaid i'ch hyfforddwr ystumod trwyddedig gadarnhau eich bod yn meddu ar brofiad digonol i wneud hyn.
- I ddal ystumod â llaw, rhaid i'ch hyfforddwr ystumod trwyddedig gadarnhau eich bod yn meddu ar brofiad digonol i wneud hyn.
- I ddefnyddio trapiau tannau, rhwydi dal adar, neu ddulliau eraill o drapio, dylech ddangos dan ba drwydded yr ydych wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Fel arfer, caiff trwyddedau o'r fath eu rhoi fesul safle a rhaid cael cyfiawnhad manwl.

Nodiadau:

- Pan fo modd, gwnewch yn siŵr fod eich hyfforddwr ystumod yn arwyddo'r cais yn y lle priodol. Os na allwch gael gafael ar hyfforddwr ystumod, yna a wnewch chi gyflwyno dau eirda, gan sicrhau bod esboniad boddhaol yn cael ei gynnig. Dylai pawb sy'n cyflwyno geirda nodi pa brofiad personol sydd ganddynt o'ch gweld yn gwneud y gweithgareddau yr ydych yn cyflwyno cais ar eu cyfer. Dylech gyflwyno copi o'ch trwydded NE neu SNH hefyd.
- Pan fo modd, nodwch ar ba safle neu safleoedd penodol yr hoffech wneud y gwaith.
- Os ydych eisiau hyfforddi eraill i weithio ag ystumod, a wnewch chi ddangos tystiolaeth eich bod wedi bod ar gwrs "hyfforddiant i hyfforddwyr" cydnabyddedig.
- Wrth nodi enwau cynorthwywyr neu asiantau achrededig, gwnewch yn siŵr eu bod yn meddu ar brofiad digonol yn y gweithgareddau dan sylw, a nodwch pa weithgareddau y byddant yn eu gwneud, ac ymhle. Deiliad y drwydded sy'n gyfrifol am sicrhau bod pawb yn gweithredu'n ôl y drwydded.

- Os byddwch yn aflonyddu ar rywogaethau eraill dan warchodaeth wrth wneud y gweithgareddau arfaethedig, efallai y byddwch angen trwydded ar gyfer y rhywogaethau hynny hefyd. Er enghraifft, wrth arolygu ystlumod mewn safleoedd tanddaearol lle ceir dyfrgwn, fe fyddai'n rhaid ichi gael trwydded i aflonyddu ar y dyfrgwn yn ogystal â thrwydded i aflonyddu ar yr ystlumod.
- Fodd bynnag, pe bai neb yn gwybod bod rhywogaeth arall dan warchodaeth yn bresennol, ni fyddech angen trwydded. Er enghraifft, pe baech yn dod o hyd i ystlumod wrth arolygu blychau nythu pathewod, ni fyddech angen trwydded cyn belled â'ch bod yn cau'r blwch nythu'n syth ac yn gadael y safle heb aflonyddu arno mewn unrhyw ffordd.
- Braint, nid hawl, yw cael trwydded i weithio â rhywogaethau dan warchodaeth.
- Dylai'r hyfforddiant ddilyn y maes llafur a nodir yn y Llawlyfr i Weithwyr Ystlumod.
- Os mai dyma'r tro cyntaf ichi gyflwyno cais am drwydded, fel arfer fe fydd CNC yn rhoi trwydded ichi am flwyddyn. Wedyn, y drefn arferol yw adnewyddu trwyddedau am ddwy flynedd, oni bai ein bod yn cael trafferth i gael gafael ar yr adroddiadau perthnasol.
- Os ydych eisiau tynnu lluniau arbennig, dylid cyflwyno cais fesul safle, gan gyfiawnhau'n llwyr pam mae angen aflonyddu mwy ar y creaduriaid.